
# Y GWEITHLU NYRSIO YNG NGHYMRU 2019







Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

@RCNWales    RCNWales

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

## Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

Nod y briff hwn yw rhoi trosolwg ystadegol o gryfderau a gwendidau'r gweithlu nyrsio yng Nghymru. Y prif ffynonellau gwybodaeth ar gyfer y gweithlu nyrsio yng Nghymru yw Ystadegau Cymru/Llywodraeth Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae eraill wedi eu rhestru yn y briff hwn. Mae ffigurau wedi eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Cafodd ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar nyrsio a ddefnyddiwyd gan y GIG eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2018 ac maent yn dod o fis Medi 2017[1].

Cyhoeddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol rifyn diweddaraf yr Arolwg Cyflogaeth chwe misol yn 2019. Tynnwyd yr wybodaeth yn yr astudiaeth DU gyfan hon o arolwg cynhwysfawr o'n haelodaeth nyrsio ac roedd 965 o ymatebwyr o Gymru.

Cysylltwch â Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau a godir yn y briff hwn.

[1] https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?_ga=2.55785643.185517317.1566300023-1337866696.1470910536

# Crynodeb Gweithredol

1. Mae angen mwy o nyrsys cofrestredig ar Gymru i ddarparu gofal. Mae hyn yn gofyn am gynnydd yn nifer y myfyrwyr a mesurau i ddiogelu recriwtio rhyngwladol a'r broses o fynd i'r afael â chadw staff. Gellir gweld tystiolaeth o'r prinder nyrsys hefyd yng nghyfradd swyddi nyrsio gwag y GIG, y gyfradd uwch o wariant ar nyrsys asiantaeth a'r prinder dybryd o nyrsys cofrestredig yn y sector annibynnol.
2. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar ymgyrch genedlaethol i godi proffil nyrsio cofrestredig mewn cartrefi gofal yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff nyrsio yn y sector gofal cymdeithasol. Mae angen gwella ansawdd y data gweithlu o ran y sector annibynnol.
3. Dylai Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru sicrhau bod Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ganolog i'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Mae'r Ddeddf hon yn diogelu bywydau cleifion a darpariaeth gofal o safon. Dylid ei hymestyn i feysydd gofal eraill megis wardiau plant, iechyd meddwl, cartrefi gofal a nyrsio cymunedol.
4. Bob wythnos, mae nyrsys yng Nghymru yn rhoi oriau ychwanegol i'r GIG sydd gyfwerth â 976 o nyrsys llawn amser. Mae'r ddibyniaeth hon ar ewyllys da nyrsys yn cyfrannu at straen, salwch, diffyg ysbryd a chyfraddau gwael o ran cadw staff.
5. Gwariodd GIG Cymru £63.8 miliwn ar nyrsys asiantaeth yn 2018/19. Mae hynny'n gynnydd o 24% ers y llynedd. Mae hyn yn wariant cyflog sy'n cyfateb i 2,635 o nyrsys sydd newydd gymhwyso. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i leihau'r gwariant hwn.
6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cyhoeddir data yn flynyddol ar gyfraddau swyddi gwag y gweithlu yn y GIG.
7. Dangosodd Arolwg Cyflogaeth Coleg Nyrsio Brenhinol 2019 mai dim ond 64% o'r staff nyrsio yng Nghymru oedd wedi gallu cwblhau eu holl hyfforddiant gorfodol a dim ond 47% wedi gallu ei gwblhau yn ystod amser gwaith. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyflogwyr nyrsys yn gwella'r ffigurau hyn.
8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hygyrchedd cynyddol a chyllid cynaliadwy ar gyfer addysg nyrsio. Mae angen dull cenedlaethol o ymdrin â materion sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr, cadw'r bwrsari, dysgu o bell, prentisiaethau ar lefel gradd, cynlluniau cadét nyrsio a'r broses o ehangu lleoliadau clinigol myfyrwyr.
9. Dylai Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru wella'r gweithlu a gynhelir yn genedlaethol, gweithgareddau a gwybodaeth canlyniadau ynghylch gofal nyrsio cymunedol y GIG er mwyn gwella'r broses o gynllunio'r gwasanaethau a'r gweithlu.

## Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** ii

### Adran 1
**Faint o nyrsys a gyflogir gan y GIG?** 2

### Adran 2
**Faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogir yn y Sector Annibynnol?** 3

### Adran 3
**A oes digon o Nyrsys i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion?** 5

### Adran 4
**Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016** 9

### Adran 5
**Myfyrwyr Nyrsio a Dyfodol Gofal Iechyd** 10


## Ynghylch y Coleg Nyrsio Brenhinol


Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw'r undeb proffesiynol mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsys, ac mae'n cynrychioli dros 430,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 25,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn gweithio ym mhob lleoliad; carchardai, gofal sylfaenol, ysbytai, ysgolion, cartrefi gofal a chymunedau, yn y GIG ac yn y sector annibynnol. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i hyrwyddo safonau gofal a lles cleifion a nyrsys, a nyrsio fel proffesiwn. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan, gyda'i Fyrddau Cenedlaethol ei hun ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cyfrannu'n helaeth at arferion nyrsio, safonau gofal, a pholisi cyhoeddus gan ei fod yn effeithio ar iechyd a nyrsio. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, yn hybu rhagoriaeth mewn arferion ac yn llywio polisïau iechyd.

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

# Adran 1

## Faint o nyrsys a gyflogir gan y GIG?

Ffig. 1 Niferoedd Nyrsio y GIG (Ystadegau Cymru)




| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nyrsio Cyfwerth ag Amser Llawn | 31139.3 | 31273.5 | 31040.9 | 31176.2 | 31365.6 | 31385.7 | 31911.6 | 32712.7 | 32973.9 | 32927.1 |
| Nyrsys Cyfwerth ag Amser Llawn | 21714.5 | 21783.1 | 21686 | 21754.8 | 21922.7 | 21987.4 | 22148.9 | 22436.5 | 22581.5 | 22539.6 |

**MAE ANGEN RHAGOR O NYRSYS COFRESTREDIG AR GYMRU I DDARPARU GOFAL.**

**MAE HYN YN GOFYN AM GYNNYDD YN NIFER Y MYFYRWYR A MESURAU I DDIOGELU RECRIWTIO RHYNGWLADOL A'R BROSES O FYND I'R AFAEL Â CHADW STAFF.**

**NID YW NIFER Y NYRSYS CYFLOGEDIG YN ADLEWYRCHU ANGHENION CLEIFION FEL Y DANGOSIR GAN Y NIFER GYNYDDOL O GLEIFION, DIFRIFOLDEB UWCH SALWCH CLEIFION NA'R DEFNYDD UWCH O WELYAU.**

**GELLIR GWELD TYSTIOLAETH O'R PRINDER NYRSYS HEFYD YNG NGHYFRADD SWYDDI NYRSIO GWAG Y GIG, Y GYFRADD UWCH O WARIANT AR NYRSYS ASIANTAETH A'R PRINDER DYBRYD O NYRSYS COFRESTREDIG YN Y SECTOR ANNIBYNNOL.**

Mae Ystadegau Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol am nyrsys a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru. Noder bod "nyrsio" fel term yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd. Gellir cael ffigurau Nyrsys Cofrestredig drwy beidio â chynnwys y categorïau nad ydynt yn nyrsys[2].

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod nifer gyffredinol y nyrsys a gyflogir gan y GIG yng Nghymru yn sefydlog ar y cyfan ers 2009, gyda chynnydd bach yn y niferoedd cymorth gofal iechyd yn 2015.

Er hynny, nid yw hyn yn adlewyrchu anghenion cleifion na datblygiadau'r gwasanaeth. Ceir llwyth gwaith nyrsio cynyddol wrth ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio gyda dibyniaeth a chyd-forbidrwydd cynyddol. Mae llif cleifion mewn ysbytai, yn ogystal â'r defnydd o welyau, wedi cynyddu yn sylweddol.  Mae angen cynnydd sylweddol mewn nyrsio er mwyn sicrhau bod gofal cleifion o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddarparu. O'i roi'n syml iawn, mae angen mwy o staff nyrsio sydd â lefel uwch o wybodaeth a sgiliau i ofalu am rywun sydd wedi torri ei glun os yw hefyd yn fregus yn gorfforol, yn byw â gyda dementia, diabetes, cyflyrau ar y galon a salwch anadlol. Mae hyn fwy fyth yn wir os yw'r unigolyn hwn yn cael gofal gartref, ar ei ben ei hun neu mewn tŷ o safon wael.

Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 mewn grym yn llawn erbyn hyn ac mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn disgwyl i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ymgorffori gofynion y Ddeddf yn eu cyflwyniadau ar gynllunio'r gweithlu a'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.  Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw'r corff newydd yng Nghymru a fydd bellach yn gyfrifol am gomisiynu addysg nyrsys. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ynghyd â Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i greu strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol erbyn diwedd 2019. Bydd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn archwilio ei gynnydd yn ofalus.

[2] h.y. dysgwr, ymarferydd, nyrs gynorthwyol a 'nyrs feithrin'.

Mae angen ystyried dangosyddion eraill o'r gweithlu a'r cleifion wrth edrych ar ffigurau nyrsio a ddefnyddir gan y GIG, megis cyfraddau swyddi gwag, gwariant ar asiantaethau, a phwysau'r baich gwaith. Archwilir y rhain yn yr adran nesaf.

Gall y ffigurau cyffredinol hyn gymylu diffygion sylweddol iawn mewn rhai meysydd megis nyrsio newyddenedigol a nyrsio plant yn y gymuned. Hefyd, nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried yr angen am nyrsys mewn meysydd y tu allan i'r GIG, megis cartrefi gofal a phractisau meddygon teulu.

## Adran 2

### Faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogir yn y Sector Annibynnol?

Bydd y sector annibynnol yn cynnwys cyflogwyr megis cartrefi gofal, practisau meddygon teulu ac asiantaethau nyrsio.

Gwyddom oddi wrth ddarparwyr cartrefi gofal a'n haelodau fod prinder dybryd o nyrsys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru ddata a gasglwyd am y gweithlu ar gyfer 2017[3]. Mae'n nodi bod 64.7% o'r gweithlu gofal a gomisiynwyd yn gynorthwywyr gofal (y bydd llawer ohonynt yn darparu gofal nyrsio) ond dim ond 3.5% o'r gweithlu gofal a gomisiynwyd sy'n nyrsys cofrestredig (ac eithrio rheolwyr).

Os nad oes digon o nyrsys cofrestredig yn y gweithlu cartrefi gofal yna bydd ansawdd y gofal nyrsio a ddarperir yn gostwng, gan arwain at iechyd gwael a disgwyliad oes byrrach i breswylwyr. Bydd y baich ar y GIG hefyd yn cynyddu wrth i achosion o oedi wrth ryddhau cleifion ac ail-dderbyniadau gynyddu.

Mae angen gofal nyrsio mewn cartref gofal ar rai pobl. Os oes angen gofal nyrsio arnynt, dylai'r gofal hwn gael ei oruchwylio gan nyrs gofrestredig a dylai'r gofal hwn gael ei arolygu a'i reoleiddio.

Mae presenoldeb Nyrs Gofrestredig mewn cartrefi gofal ar gyfer preswylwyr sydd ag anghenion nyrsio yn hanfodol ar gyfer monitro ac asesu iechyd a lles preswylwyr yn barhaus. Maent yn ymarferwyr annibynnol, a chaiff eu sgiliau clinigol eu defnyddio i nodi a rhagweld problemau, gweithredu pan fydd cyflwr unigolyn yn dirywio ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae Nyrsys Cofrestredig yn allweddol wrth reoli salwch difrifol, gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli cyflyrau hirdymor, a darparu ymyraethau cymhleth mewn sefyllfaoedd o argyfwng. Maent hefyd yn helpu i gefnogi proses bontio ddi-dor o'r ysbyty yn ôl i'r cartref gofal.

**YN 2017, DIM OND 1600 O NYRSYS COFRESTREDIG OEDD YN Y GWEITHLU CARTREFI GOFAL YNG NGHYMRU.**

**MAE'R FFIGUR ARGYFYNGUS O ISEL HWN YN DANGOS PA MOR ANODD YW DARPARU GOFAL NYRSIO O SAFON MEWN CARTREFI GOFAL YNG NGHYMRU.**

[3] https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/casgliad-data-gweithlu-2017-rhaglen-datblygu-gweithlu-gofal-cymdeithasol-cymru-rhdggcc-gwasanaethau-darparwuyr-gofal-a-gomisiynwyd

**DYLAI LLYWODRAETH CYMRU WEITHIO GYDA GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU AR YMGYRCH GENEDLAETHOL I GODI PROFFIL NYRSIO COFRESTREDIG MEWN CARTREFI GOFAL YNG NGHYMRU, GAN GANOLBWYNTIO AR RECRIWTIO A CHADW STAFF NYRSIO YN Y SECTOR GOFAL CYMDEITHASOL.**

**MAE ANGEN GWELLA ANSAWDD DATA'R GWEITHLU YN Y SECTOR ANNIBYNNOL.**

Mae Nyrsys Cofrestredig yn hybu annibyniaeth preswylwyr drwy ofal rhagweithiol, adferol; yn hybu iechyd trigolion; yn darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes o safon uchel i unigolion ac maent yn cyflawni swyddogaeth allweddol mewn eiriolaeth ar gyfer preswylwyr a theuluoedd.

Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i'r sector gofal cymdeithasol er mwyn asesu'r nifer o wladolion yr UE sy'n gweithio yn y maes hwn a pheryglon posibl Brexit[4]. Canfu'r arolwg hwn mai Nyrsys Cofrestredig yw'r grŵp staff o fewn gofal cymdeithasol sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr o'r UE o'r tu allan i'r DU (oddeutu 17.7%). Canfu'r adroddiad hefyd mai nyrsys cofrestredig oedd rhan o'r gweithlu yr oedd cyflogwyr gofal cymdeithasol yn cael yr anhawster mwyaf i'w cadw. Mae'r data hyn yn dangos bod yn rhaid ystyried a lliniaru goblygiadau Brexit o ran y sector cartrefi gofal yn ofalus.

Mae integreiddiad agos iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu bod prinder nyrsys yn y sector cartrefi gofal a/neu gynllunio gweithlu gwael yn risg sylweddol i'r GIG. Dylai Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd nodi eu cynlluniau gwasanaeth a'u hanghenion gweithlu, gan ystyried demograffeg eu poblogaeth. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi'r disgwyliad y dylai hyn adlewyrchu'r angen eang sydd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae trylwyredd ac ansawdd y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn amrywio'n fawr ar draws Byrddau Iechyd fel y mae eu gallu i asesu angen y gweithlu yn sector annibynnol eu rhanbarth. Nid yw'r adroddiad gweithlu a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o dueddiadau. Mae'n nodi *"ni allwn ddarparu cymariaethau dibynadwy â blynyddoedd blaenorol... Fel y cyfryw, ni wyddom i ba raddau mae'r newidiadau hyn yn cynrychioli newid gwirioneddol"* (t. 5). Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn galw ar Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i weithredu ar unwaith i wella'r data hwn ar y gweithlu.


Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn argymell nifer o fesurau y dylai Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r prinder nyrsys cofrestredig yn y sector annibynnol, er enghraifft codi proffil y gweithlu, gwella cyflogau ac amodau, a'r gallu i gael datblygiad proffesiynol parhaus a fframwaith gyrfa cryf. Archwilir y rhain ymhellach yn adroddiad diweddar y Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth ar nyrsio mewn cartrefi gofal[5].

[4] https://llyw.cymru/effaith-brexit-ar-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-gofal-plant?_ga=2.124360335.485770449.1562757421-1222751903.1546353631

[5] Nyrsio mewn Cartrefi Gofal: Golwg o'r Rheng Flaen Adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth Gwanwyn 2019 Cadeirydd: David Rees AC

## Adran 3
# A oes digon o Nyrsys i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion?

Ffig. 2 Morâl nyrsio yng Nghymru (Arolwg Cyflogaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol 2019)





Mae'r graff uchod yn rhoi darlun cychwynnol o'r pwysau y mae nyrsys yn ei deimlo yn eu gwaith.

Gwyddom fod GIG Cymru yn parhau i ddangos dibyniaeth drom ar barodrwydd nyrsys i weithio oriau ychwanegol. Mae 76% o nyrsys yn gweithio oriau ychwanegol o leiaf unwaith yr wythnos. O'r rhain, mae'r rhan fwyaf yn gweithio rhwng un a phedair awr yn ychwanegol mewn wythnos[6].

Cyflogir 22,539 o nyrsys cyfwerth ag amser llawn yn y GIG. Gan ddefnyddio'r ffigur hwn (yn hytrach na ffigur y cyfrif aseiniad uwch gan y gallai nyrs unigol fod mewn mwy nag un swydd) mae 76% yn cyfateb i 17,130 o nyrsys.

Ffig 3. Ar gyfer y nyrsys sy'n gweithio oriau ychwanegol bob wythnos - dyma nifer yr oriau ychwanegol y maent yn eu gweithio




Pe byddai 17,130 o nyrsys yn gweithio dwy awr yn ychwanegol mewn un wythnos, byddai'r GIG yng Nghymru yn cael 34,260 o oriau ychwanegol o waith yn yr wythnos honno. Mae hynny'n cyfateb i 976 o swyddi nyrsio amser llawn.

**BOB WYTHNOS, MAE NYRSYS YNG NGHYMRU YN RHOI ORIAU YCHWANEGOL I'R GIG SYDD GYFWERTH Â 976 O NYRSYS AMSER LLAWN.**

**MAE'R DDIBYNIAETH HON AR EWYLLYS DA NYRSYS YN CYFRANNU AT STRAEN, SALWCH, DIFFYG YSBRYD A CHYFRADDAU GWAEL O RAN CADW STAFF.**

[6] Arolwg Cyflogaeth 2019 y Coleg Nyrsio Brenhinol

Bydd angen rhyw elfen o nyrsio dros dro yn y GIG bob amser ar gyfer cyfnodau salwch tymor byr a mamolaeth. 'Nyrsio banc' yw'r term a roddir ar gyfer y system lle gall nyrsys a gyflogir gan y GIG gofrestru gyda'r 'banc' i fod ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o nyrsys yn gweithio rhai oriau ar gyfer y 'banc' a bydd rhai yn gweithio ar gyfer y banc yn unig.

Mae Byrddau Iechyd hefyd yn defnyddio nyrsys asiantaeth ar gyfer prinder nyrsys a ddaw yn sgil methiant i gynllunio'r gweithlu, methiant i recriwtio digon o nyrsys a methiant i gadw nyrsys. Yn aml, mae nyrsys yn gadael y GIG i weithio i asiantaethau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu rheoli eu horiau gwaith eu hunain a chael cyfradd uwch o dâl o'i gymharu â'r GIG. Yn aml, nyrsys yng Nghymru yw'r unig, neu'r prif enillydd cyflog yn y teulu. Yn aml, maent hefyd yn gofalu am blant ac aelodau hŷn o'r teulu. Mae rheolaeth dros oriau a weithir, felly, yn eithriadol o bwysig ac/neu'n angenrheidiol i'r grŵp hwn. Yn gynyddol, mae nyrsys yn dewis gweithio i asiantaethau *yn unig*. Os yw GIG Cymru am gadw ei staff nyrsio, mae angen iddo foderneiddio ei weithdrefnau Adnoddau Dynol er mwyn rhoi mwy o reolaeth i nyrsys dros pryd y maent yn gweithio.

**GWARIODD GIG CYMRU £63.8 MILIWN AR NYRSYS ASIANTAETH YN 2018/19. CYNNYDD O 24% ERS Y LLYNEDD.**

**MAE HYN YN WARIANT CYFLOG SY'N CYFATEB I 2,635 O NYRSYS SYDD NEWYDD GYMHWYSO.**

**MAE'N RHAID I LLYWODRAETH CYMRU GYMRYD CAMAU I LEIHAU'R GWARIANT HWN.**

Yn hytrach na chymell ei nyrsys i aros, mae GIG Cymru yn ceisio annog nyrsys i beidio â gadael drwy fesurau megis gwrthod cyflogi nyrsys asiantaeth sydd hefyd yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn creu sefyllfa ryfedd pryd y mae nyrsys asiantaeth yn teithio o Lundain neu Fanceinion i lenwi swyddi gwag yng Nghaerdydd neu yn Ysbyty Gwynedd.

Mae GIG Cymru yn dangos dibyniaeth beryglus a chynyddol ar nyrsys asiantaeth. Ysgrifennodd Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 13 Mai 2019[7] i rybuddio bod gwariant ar nyrsio a bydwreigiaeth drwy asiantaethau wedi codi gan 24%, sy'n ffigur syfrdanol, rhwng 2017/18 a 2018/19. Mae hyn yn £63.8 miliwn. Mae £63.8 miliwn yn cyfateb i 2,365 o nyrsys sydd newydd gymhwyso. Roedd maint y cynnydd yn amrywio rhwng 1.6% (£0.2 miliwn) yn Hywel Dda a 52.9% (£4 miliwn) yn Abertawe Bro Morgannwg.

Mae nyrsio gan ddefnyddio asiantaeth(au) yn ddrud gan fod cost uwch er mwyn talu am elw i'r asiantaeth. Nid yw ychwaith yn ddelfrydol o ran gofalu am gleifion fel dewis parhaol neu hirdymor gan y bydd nyrsys asiantaeth yn llai cyfarwydd â chynllun, polisïau a chyfarpar y ward ac yn llai abl i ddarparu gofal cyson.

[7] http://senedd.assembly.wales/documents/s88142/PAC5-13-19 PTN1 - Welsh Government on NHS Agency Staff_e.pdf

Mae datblygiad proffesiynol a dysgu yn ofynion sylfaenol ar gyfer gyrfa pob nyrs.  Mae'n ofynnol ar gyfer ailddilysu llwyddiannus gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion ac effeithiolrwydd clinigol. Er hynny, oherwydd anhawster wrth ôl-lenwi nyrsys ar y tîm, mae rhai Byrddau Iechyd wedi atal nyrsys rhag cael gafael ar unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn golygu bod cael yr wybodaeth ddiweddaraf (e.e. ynghylch deddfwriaeth newydd ar allu meddyliol) neu ddysgu sgiliau newydd wrth ofalu am gleifion sy'n agored i niwed sydd â dementia yn dod yn rhywbeth y mae nyrsys yn gorfod ymdrechu i'w wneud gartref gan dalu amdano eu hunain. Mewn gwrthgyferbyniad, mae meddygon yn gallu cael gafael ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn rhan o'u contractau.

Mae hyfforddiant 'gorfodol' yn cynnwys gwybodaeth am gyfarpar, triniaeth cynnal bywyd brys/adfywio cardio-pwlmonaidd, a rheoli heintiau. Datgelodd Arolwg Cyflogaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol 2019 fod 85% o holl staff nyrsio'r DU gyfan wedi nodi eu bod wedi cwblhau eu holl hyfforddiant gorfodol, ond gostyngodd y ffigur hwn i 70% yng Nghymru. Ledled y DU, dywedodd 54% eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol diwethaf o fewn amser gwaith arferol, ond yng Nghymru, mae hyn yn gostwng ymhellach i 29% ac mae'r ffigur hwn yn peri pryder. Os nad yw nyrsys hyd yn oed yn gallu cwblhau eu hyfforddiant gorfodol o fewn amser gwaith, nid oes digon o nyrsys yn cael eu cyflogi i ddarparu gofal diogel i gleifion.

Mae Llywodraeth Cymru a/neu GIG Cymru hefyd yn methu â chyhoeddi ffigurau cenedlaethol ar gyfer swyddi nyrsio gwag yn y GIG gan ddefnyddio diffiniad y cytunwyd arno ar gyfer yr hyn sy'n cynrychioli swydd wag. Mae hyn yn ddangosydd hollbwysig o'r pwysau sy'n wynebu Byrddau Iechyd neu ddisgyblaethau penodol. Cânt eu cyhoeddi yng ngwledydd eraill y DU.

Mae'n amlwg y dylid trin y data yn y tabl isod yn ofalus. Mae'r data ffynhonnell yn dod o wahanol adegau mewn amser. Mae'r ffigurau a gymerwyd o bapurau'r Bwrdd yn amrywio o ran a yw'r Byrddau Iechyd yn adrodd ar gyfraddau swyddi gwag Band 5 yn unig, a pha un a ydynt ddim ond yn adrodd ar swyddi gwag mewn wardiau a gwmpesir o dan Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru o'r farn ei fod yn *tangynrychioli* cyfradd y swyddi gwag.

Er hynny, mae'r tabl yn gweithio'n dda, yn gyntaf, fel enghraifft o ba mor hurt o anodd yw cwmpasu cyfradd y swyddi nyrsio gwag yng Nghymru ar hyn o bryd ac, yn ail, pa mor bwysig yw'r effaith gyfan ar ofal cleifion a'r pwysau a brofir gan ein nyrsys yn y GIG.

**DANGOSODD AROLWG CYFLOGAETH COLEG NYRSIO BRENHINOL 2019 MAI DIM OND 64% O'R STAFF NYRSIO YNG NGHYMRU OEDD WEDI GALLU CWBLHAU EU HOLL HYFFORDDIANT GORFODOL A DIM OND 47% OEDD WEDI GALLU EI GWBLHAU YN YSTOD AMSER GWAITH.**

**MAE'N RHAID I LYWODRAETHCYMRU SICRHAU BOD CYFLOGWYR NYRSYS YN GWELLA'R FFIGURAU HYN.**

**Ffig. 4 Amcangyfrif o'r Swyddi Nyrsio Gwag yng Nghymru**

| Bwrdd Iechyd | Dyddiad y Swydd Wag Cyfwerth ag Amser Cyflawn | Ffynhonnell | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | **330** o swyddi Nyrsio Cofrestredig gwag ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan | Cyflwynwyd tystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Nyrsio Cymunedol a Rhanbarthol | Mawrth 2019 |
| Betsi Cadwaladr | **559.8** o swyddi Nyrsio Cofrestredig gwag ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan | Cyflwynwyd tystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Nyrsio Cymunedol a Rhanbarthol | Mawrth 2019 |
| Powys | **79.5** o swyddi Nyrsio Cofrestredig gwag ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan | Cyflwynwyd tystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Nyrsio Cymunedol a Rhanbarthol | Mawrth 2019 |
| Hywel Dda | **99.63** o swyddi Nyrsio Cofrestredig gwag ar draws wardiau lle mae Adran 25B o'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn berthnasol | Adroddiad er mwyn Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Bwrdd o ran Gweithredu'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) | Tachwedd 2018 |
| Cwm Taf | **56.8** o swyddi Nyrsio Cofrestredig gwag ar draws wardiau lle mae Adran 25B o'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn berthnasol | Adroddiad er mwyn Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Sylwer hefyd, ym mis Ionawr 2019, fod y Gweinidog Iechyd wedi cyhoeddi y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gorfod codi ei statws uwchgyfeirio o 'drefniadau arferol' i 'fonitro uwch'. Nodwyd methiant i gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gan y Gweinidog Iechyd fel un o'r ffactorau a gyfrannodd at y penderfyniad hwn. | Ionawr 2019 |
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | **288.56** o swyddi gwag Band 5 ar draws pob maes | Papur Bwrdd y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) | Mehefin 2018 |
| Caerdydd a'r Fro | **237.31** o swyddi gwag Band 5 ar draws pob un o'r 4 bwrdd clinigol | Papur Bwrdd y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) | Tachwedd 2018 |
| Cyfanswm y swyddi gwag a gofnodwyd | **1651.6** | | |

## Adran 4
# Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Daeth y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn gyfraith ym mis Mawrth 2016 a chafodd ei gweithredu'n llawn ym mis Ebrill 2018. Mae'r cyntaf (Adran 25A) yn ddyletswydd gyffredinol ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Pan eu bod yn darparu gwasanaethau nyrsio, mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu **"digon o nyrsys i ganiatáu i'r nyrsys gael amser i ofalu am gleifion mewn modd sensitif."**

Mae Adran 25B a 25C yn nodi, mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt ar gyfer oedolion, fod yn rhaid cyfrifo lefel "nyrsio digonol" yn unol â methodoleg benodol fel y'i nodir yn y canllawiau a gwneud trefniadau i hysbysu cleifion o'r lefel staff nyrsio. Mae cymysgedd sgiliau yn rhan o algorithm y fethodoleg ragnodedig hon, ac felly allbwn yr offeryn cynllunio gweithlu yw nifer y nyrsys cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd sydd eu hangen.

Mae Adran 25D yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol i'r GIG ynghylch ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf hon ac mae Adran 25E yn nodi bod yn rhaid i Fyrddau Iechyd gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd, sy'n nodi'n glir y camau a gymerwyd er mwyn glynu at y Ddeddf, unrhyw achosion o dorri'r Ddeddf ac unrhyw gamau gweithredu lliniarol. Ymgyrchodd y Coleg Nyrsio Brenhinol am y Ddeddf hon er mwyn diogelu gofal cleifion.

Yn 2007, arolygodd yr Athro Rafferty bron i bedair mil o nyrsys ledled Lloegr a'r Alban gan edrych ar 118,752 o achosion o ofal cleifion mewn 30 o ymddiriedolaethau ysbytai yn Lloegr. Canfu fod cyfradd marwolaethau cleifion 26% yn uwch mewn wardiau â chymarebau nyrsys/cleifion is.  Amcangyfrifodd meta-astudiaeth ryngwladol yn 2007 fod pob nyrs amser llawn ychwanegol y diwrnod yn arbed pum bywyd fesul 1,000 o gleifion meddygol, a chwech fesul 1,000 o gleifion llawfeddygol.

Canfu astudiaeth arall yn 2014, pan fo'n ofynnol i nyrs weithio gyda mwy na saith claf y dydd, fod y risg y bydd y claf yn marw o fewn 30 diwrnod yn cynyddu 7 y cant[8].

Mae canlyniadau gwael sydd hefyd yn gysylltiedig â lefelau isel o ofal nyrsio yn cynnwys digwyddiadau andwyol yn sgil llawdriniaeth; cyfraddau uwch o ddamweiniau ac anafiadau i gleifion; cyfraddau croes-heintio uwch; a chyfraddau uwch o niwmonia.

### CWESTIYNAU I'W GOFYN I FYRDDAU IECHYD YNGHYLCH LEFELAU DIOGEL O STAFF NYRSIO

- **SUT YDYCH CHI'N SICRHAU LEFELAU STAFF NYRSIO PRIODOL DRWY EICH TREFNIADAU CYNLLUNIO GWEITHLU?**
- **SUT Y CAFODD GOFYNION Y DDEDDF EU CYFLEU I'R HOLL STAFF?**
- **SUT MAE CLEIFION YN CAEL GWYBOD AM Y LEFEL STAFFIO AR EU WARD?**
- **A FU UNRHYW DORIADAU O RAN CYDYMFFURFIO Â' R DDEDDFWRIAETH, A PHA FESURAU SYDD AR WAITH ER MWYN MYND I'R AFAEL Â HYN AR GYFER Y DYFODOL?**

[8] Rafferty, Anne Marie et al. 2007. Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: Cross-sectional analysis of survey data and discharge records. International Journal of Nursing Studies 44 (2), pp. 175 - 182

Kane, RL et al. 2007. Nurse Staffing and Quality of Patient Care. Rockville: Agency for Healthcare Research and Quality (US)

Aiken, Linda et al. 2014. Nurse staffing and education and hospital mortality in nine European countries: a retrospective observational study. The Lancet 383 (9931) , pp. 1824 - 1830

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn disgwyl i Fyrddau Iechyd ystyried eu dyletswyddau o dan y Ddeddf hon wrth gyflwyno eu cynlluniau gweithlu i Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol hefyd yn disgwyl i Addysg a Gwella Iechyd Cymru ystyried y Ddeddf gan ei fod yn comisiynu lleoedd myfyrwyr nyrsio ac addysg nyrsys ar ôl iddynt gofrestru, a'i strategaeth genedlaethol ar gyfer y gweithlu y disgwylir ei chyhoeddi ddiwedd 2019. Hefyd, mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wrthi'n llunio adroddiad ar weithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a gaiff ei gyhoeddi ddiwedd 2019.

Mae Adran 25B a 25C y Ddeddf yn nodi, mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt ar gyfer oedolion, fod yn rhaid cyfrifo'r lefel "nyrsio digonol" yn unol â methodoleg benodol fel y'i nodir yn y canllawiau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn y gofyniad hwn i feysydd gofal eraill. Mae'r rhaglen genedlaethol ar gyfer staffio diogel sy'n datblygu'r methodolegau hyn ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn rhan o raglen 1000 o Fywydau a Mwy yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol o'r farn y dylid symud y cyfrifoldeb dros y rhaglen waith hon i Addysg a Gwella Iechyd Cymru er mwyn sicrhau cydamseredd o ran cynllunio'r gweithlu ac adnoddau digonol.

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn credu bod angen ymestyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i feysydd eraill megis iechyd meddwl, cartrefi gofal a nyrsio cymunedol fel mater o frys.

**DYLAI LLYWODRAETH CYMRU AC ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU SICRHAU BOD DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016 YN GANOLOG I'R GWAITH O GYNLLUNIO'R GWEITHLU.**


**MAE'R DDEDDF HON YN DIOGELU BYWYDAU CLEIFION A DARPARIAETH GOFAL O SAFON.**

**DYLID EI HYMESTYN I FEYSYDD GOFAL ERAILL MEGIS WARDIAU PLANT, IECHYD MEDDWL, CARTREFI GOFAL A NYRSIO CYMUNEDOL.**

# Adran 5
## Myfyrwyr Nyrsio a Dyfodol Gofal Iechyd

Mae'r graff isod[9] yn dangos gostyngiad sylweddol yn niferoedd y myfyrwyr nyrsio rhwng 2009 a 2012. Yn sgil hyn, rhoddodd y diffyg hwn bwysau mawr ar GIG Cymru rhwng 2012 a 2015 ac mae ei effeithiau yn dal i gael eu teimlo.

**Ffig. 5 Myfyrwyr Nyrsio ers 2008 (Llywodraeth Cymru)**




Mae'r graff hefyd yn dangos y cynnydd diweddar yn nifer y lleoedd i fyfyrwyr nyrsio a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae angen y cynnydd hwn a chaiff ei groesawu. Er hynny, mae angen i'r duedd hon barhau. Yn 2019/20, roedd y ffigurau comisiynu myfyrwyr yn sefydlog. O ystyried y gyfradd swyddi gwag a amlinellwyd yn gynharach, bydd angen i gyfraddau cadw nyrsys wella'n sylweddol er mwyn lleihau'r pwysau ar y GIG a'r sector annibynnol.

Er mwyn darparu gweithlu nyrsio'r dyfodol ar gyfer y GIG a'r sector annibynnol yng Nghymru, mae'n hanfodol bod digon o fyfyrwyr nyrsio yn ymuno â'r proffesiwn.

Mae myfyrwyr nyrsio yn treulio tair blynedd (blynyddoedd sy'n 42 wythnos waith ac nid y calendr academaidd traddodiadol yn unig) yn dilyn y cwrs gradd nyrsio (y meysydd ymarfer yw Oedolion, Plant, Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl) gan dreulio 50% o'u hamser ar leoliadau ymarferol yn y GIG yng Nghymru neu mewn lleoliadau eraill.

Canfu ymchwil yn 2014, a gynhaliwyd ledled naw gwlad yn Ewrop, fod gweithlu nyrsio sydd wedi ei addysgu'n well yn lleihau marwolaethau diangen. Mae pob cynnydd o 10% yn nifer y nyrsys â gradd Faglor mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% mewn marwolaethau cleifion[10].

[9] Ffigurau Llywodraeth Cymru

[10] http://www.kcl.ac.uk/nursing/newsevents/news/2014/degree-educated-nurses-can-reduce-hospital-deaths.aspx

Oedran cyfartalog myfyriwr nyrsio yw 29, ac maent yn llawer mwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu. Canfu arolwg gan y Coleg Nyrsio Brenhinol fod gan 31% ohonynt blant dibynnol, roedd 10% ohonynt yn rhieni sengl ac roedd 23% ohonynt yn gofalu am berthynas sy'n sâl, yn anabl neu'n oedrannus[11].

Mae Llywodraeth Cymru yn talu cost ffioedd dysgu i'r brifysgol. Os yw myfyrwyr yn ymrwymo i weithio i GIG Cymru am ddwy flynedd, maent yn cael grant heb brawf modd o £1,000 a chânt wneud cais i gael bwrsariaeth sy'n dibynnu ar brawf modd a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd. I'r gwrthwyneb, diddymodd Llywodraeth y DU y fwrsariaeth myfyrwyr nyrsio yn Lloegr a gostyngodd nifer yr ymgeiswyr ar gyfer nyrsio yn Lloegr 30%[12]. Mae'r cyfraddau gadael cyrsiau yn llawer uwch nag yng Nghymru hefyd.  Er hynny, nid yw Cymru'n elwa'n llawn ar y penderfyniad i gadw'r fwrsariaeth. Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r penderfyniad hwn am flwyddyn neu ddwy flynedd. Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru rownd 'ymgysylltu' arall ar gyfer y system yn y dyfodol. Mae'r ansicrwydd hwn yn golygu bod darpar fyfyrwyr yng Nghymru yn ddryslyd ac wedi digalonni. Hefyd, ni all y brifysgol sy'n cynllunio eu cyllid fod yn sicr o'r system yn y dyfodol. Mae hyn yn cael effaith negyddol wrth i adrannau fethu â buddsoddi mewn nyrsio ac ystyried gwneud toriadau i'r ddarpariaeth yn hytrach.

Mae angen i Gymru gymryd camau i sicrhau bod ei chyflenwad ei hun o nyrsys yn cael ei ddiogelu a bod y gallu i ymuno â'r proffesiwn yn cael ei ehangu[13]. Yn ddiweddar, mae Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru wedi lansio cynllun cadét nyrsio gyda chymorth y Coleg Nyrsio Brenhinol a charfan o bobl ifanc o Gymru. Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru ystyried cefnogi'r cynllun hwn. Mae angen model prentisiaeth genedlaethol (sy'n arwain at radd) a defnydd ehangach o ddysgu o bell ynghyd ag ymdrech gydunol i ehangu cwmpas y lleoliadau clinigol a gynigir. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd o'r broses o gomisiynu addysg yng Nghymru ac mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn disgwyl i'r materion hyn gael sylw.

[11] Ymateb y Coleg Nyrsio Brenhinol i ymgynghoriad Changing how healthcare education is funded Adran Iechyd y DU

[12] https://www.rcn.org.uk/get-involved/campaign-with-us/student-funding-fund-our-future

[13] Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wedi cyhoeddi Dyfodol Addysg Nyrsio yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer ehangu'r gallu i gael addysg nyrsio yng Nghymru sy'n deg ac yn gynaliadwy.